# Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 03/09/2020 |
| **Pwnc / Subject:** | Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

# Ymgynghoriad ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

**Tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer Cam 1 craffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).**

## Amdanoch chi

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae hyn wedi'i amlinellu'n bennaf yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000, a Deddf Addysg 2005. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i Estyn ystyried y canlynol:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn diwallu anghenion dysgwyr;
- Safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yw wedi'i gyfyngu iddynt) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gallai Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater yn gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. I gyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi gosod tri amcan strategol, sef:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu ar gyfer gwella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

## 1. Egwyddorion cyffredinol y Bil

### 1.1 Ydych chi'n cefnogi egwyddorion y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)?

Mae Estyn yn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol a amlinellir yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu.

**1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech chi gadw'ch ateb i ryw 1500 o eiriau)*

Mae Estyn yn croesawu natur gyfyngedig y brif ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n galluogi rhyddid a hyblygrwydd i bobl broffesiynol ddiwallu anghenion dysgwyr. Hefyd, rydym yn croesawu'r gofynion asesu a dilyniant a fydd yn cefnogi dysgwyr i gyflawni a mynd y tu hwnt i'r camau dilyniant a amlinellir ym mhob un o'r meysydd dysgu a phrofiad.

Mae'r Bil hwn yn gwneud elfennau gofynnol y cwricwlwm yn glir, gan gynnwys y meysydd dysgu a phrofiad, y medrau trawsgwricwlaidd, ac addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae ymchwil yn dangos bod datblygu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn flociau adeiladu hanfodol i lwyddiant dysgwyr yn y dyfodol, ac rydym yn croesawu'r pwysigrwydd y mae'r Bil hwn yn ei roi i'r medrau hyn.

Mae'n fuddiol fod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn cael ei hymgorffori ym maes dysgu a phrofiad iechyd a lles, a disgwylir iddi gael ei datblygu ar draws y cwricwlwm hefyd. Bydd hyn yn helpu ysgolion i ddeall bod addysg cydberthynas a rhywioldeb yn elfen hanfodol o iechyd a lles effeithiol o fewn dull ysgol gyfan.

Mae'r cynnig yn y Bil i wneud crefydd, gwerthoedd a moeseg yn orfodol yn gam cadarnhaol. Fel y dywedom ni yn ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru, 'Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn', rydym yn cefnogi'r ffaith y bydd y Bil hwn yn dileu'r hawl i rieni dynnu eu plant o'r agwedd hon ar addysg. Mae datblygu gwybodaeth pob dysgwr am grefydd, gwerthoedd a moeseg yn rhan bwysig o ddysgu, ac mae'n hanfodol i faes dysgu a phrofiad y dyniaethau. Bydd y maes hwn o'r cwricwlwm yn hynod bwysig wrth helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus Cymru a'r byd. Pe bai'r hawl i dynnu plant o'r agwedd hon ar addysg yn parhau, gallai dysgwyr golli rhan bwysig o'u dysgu a cholli'r cysylltiadau rhyngddisgyblaethol y gellir eu gwneud ar draws ac o fewn meysydd dysgu a phrofiad. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar y 'Cynnig deddfwriaethol' ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg', fe wnaethom esbonio y byddem yn ffafrio system sy'n gwarchod uniondeb crefydd, gwerthoedd a moeseg fel addysg orfodol briodol a phlwraliaethol sydd o werth i bob disgybl, ni waeth beth yw safbwyntiau crefyddol neu athronyddol ei rieni. Mae rhai ysgolion yn darparu addysg grefyddol enwadol, a byddai'n well gennym fod dealltwriaeth o hyn fel rhywbeth sy'n ychwanegu at y ddarpariaeth orfodol o ran crefydd, gwerthoedd a moeseg. Yn yr ysgolion hyn, rydym yn awgrymu y dylai fod gan rieni'r hawl i dynnu eu plentyn o'r agwedd atodol hon ar grefydd, gwerthoedd a moeseg, fel eu bod yn derbyn yr addysg orfodol yn unig o ran crefydd, gwerthoedd a moeseg.

Rydym yn croesawu'r ffaith fod y Bil hwn yn rhoi pwys cyfartal i bob maes dysgu a phrofiad. Yn ychwanegol, rydym yn croesawu'r gofynion i ysgolion sicrhau bod eu darpariaeth yn galluogi dysgwyr i ymgymryd â'r holl feysydd hyd nes bod dysgwyr yn 16 oed. Bydd hyn yn annog ysgolion i ddatblygu cwricwlwm eang a chytbwys a bydd yn cynorthwyo dysgwyr wrth iddynt ddilyn y pedwar diben.

Yn y maes dysgu a phrofiad ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, rydym yn croesawu elfennau gorfodol y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym yn gadarnhaol

ynglŷn â'r pwyslais mae'r Bil hwn yn ei roi ar sicrhau bod addysgu a dysgu Cymraeg yn rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn gyson â gweledigaeth a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a chenedl sy'n gynyddol ddwyieithog. Mae'r cynnig y dylai'r Gymraeg barhau i fod yn elfen orfodol o'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 mlwydd oed yn bwysig wrth gyflawni'r weledigaeth hon. Mae'r Bil yn galluogi ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg i drwytho plant yn llawn yn y Gymraeg hyd nes eu bod yn 7 oed, sy'n rhan hanfodol o ddatblygiad cynnar y medrau iaith hyn, ond mae'n werth ailystyried p'un a oes ffordd well o gyflawni hyn mewn deddfwriaeth na'r eithrio arfaethedig o ran Saesneg i ysgolion Cymraeg ar gyfer yr ystod oedran hon.

Rydym yn cytuno y dylid cael gwared ar raglenni astudio Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith, ac anelu at eu disodli ag un continwwm dysgu. Mae'r memorandwm esboniadol yn cydnabod y bydd athrawon Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn dod o wahanol gefndiroedd proffesiynol a byddant yn delio â gwahanol gyd-destunau ystafell ddosbarth. Mae'r memorandwm yn amlinellu y bydd dysgu proffesiynol yn hanfodol i lwyddiant datblygu'r Gymraeg, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Ni ddylid tanamcangyfrif effaith y gofynion hyn, gan fod angen gwella addysgu a dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i annog disgyblion i fwynhau a gwerthfawrogi dysgu Cymraeg, a gwella deilliannau. Mae tystiolaeth arolygu yn awgrymu bod dealltwriaeth wannach mewn ysgolion cyfrwng Saesneg o ran beth yw'r addysgeg fwyaf effeithiol i gyflwyno'r Gymraeg ac ail ieithoedd yn gyffredinol.

Mae gofynion ar Weinidogion i ddatblygu codau ar 'beth sy'n cyfri', 'dilyniant' ac 'addysg cydberthynas a rhywioldeb' yn bwysig. Bydd y codau hyn yn rhoi i ysgolion, UCDau a lleoliadau'r elfennau allweddol i'w hystyried wrth gynllunio, datblygu a chyflwyno eu cwricwlwm. Dylai'r dogfennau hyn fod yn fuddiol o ran arwain eu ffordd o feddwl, a bod yn alluogwyr canolog ar gyfer diwygio'r cwricwlwm.

Rydym yn croesawu'r gofynion a amlinellir yn rhan dau'r Bil. Bydd y gofynion a osodir ar benaethiaid a chyrff llywodraethol i gynllunio, mabwysiadu ac adolygu eu cwricwlwm yn cefnogi cynllunio a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion, lleoliadau ac UCDau. Yn ychwanegol, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyhoeddi crynodeb o'u cwricwlwm. Bydd hyn yn fuddiol o ran galluogi rhieni a'r gymuned ehangach i ddeall darpariaeth ysgol, a bydd yn cefnogi ysgolion i deimlo'n atebol am ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer eu disgyblion. Croesewir y gofynion ar gyfer lleoliadau nas cynhelir ac UCDau hefyd.

Mae'r gofynion ar Weinidogion i gyhoeddi ac adolygu'r cwricwlwm yn gyson yn hanfodol i sicrhau bod y Cwricwlwm i Gymru yn parhau i fod yn gyfoes ac yn cefnogi dysgwyr yng Nghymru i ddatblygu'r wybodaeth, y medrau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i fod yn llwyddiannus.

Rydym yn croesawu gofynion y cwricwlwm a amlinellir ym mhennod 3 y Bil hwn, yn enwedig y gofyniad i'r cwricwlwm alluogi plant i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben. Mae hyn yn hanfodol i lwyddiant y cwricwlwm hwn.

Mae'r pŵer a ddarperir i ysgolion ddatgymhwyso'r cwricwlwm lle nad yw'r

cwricwlwm yn diwallu anghenion disgybl yn un pwysig. Croesewir y ffaith y bydd ysgolion yn gallu cynllunio cwricwlwm teilwredig, lle bydd angen.

Rydym ni'n croesawu'r gofynion a amlinellir ar gyfer UCDau a darpariaeth arall addysg heblaw yn yr ysgol. Bydd yr adran hon o'r Bil yn cefnogi'r darparwyr hyn i gynllunio dysgu ar gyfer disgyblion sy'n rhoi cyfle iddynt elwa ar gwricwlwm teilwredig ac wedi'i yrru gan ddiben.

Rydym yn cytuno â'r cynigion deddfwriaethol i alluogi'r trefniadau asesu newydd. Rydym yn cytuno â'r gofyniad i ysgolion sicrhau bod eu cwricwlwm yn cael ei gefnogi gan drefniadau asesu, sy'n asesu'r canlynol:

- y cynnydd a wna dysgwyr mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol; ac
- yn helpu nodi'r camau nesaf yn nilyniant dysgwyr a'r dysgu a'r addysgu sydd eu hangen i wneud y cynnydd hwnnw.

Bydd trefniadau asesu cryf yn alluogwr pwysig o ran diwygio'r cwricwlwm. Mae'r Bil, sy'n creu darpariaeth i alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddiadau i ysgolion gymryd camau penodol, gyda bwriad i hyrwyddo a chynnal dealltwriaeth o ddilyniant yng nghyd-destun cwricwlwm wedi'i fabwysiadu gan yr ysgol, yn fesur pwysig.

Mae Rhan 6 y Bil yn amlinellu dyletswyddau cyffredinol Gweinidogion ac awdurdodau lleol. Rydym yn cytuno â'r gofynion i sicrhau swyddogaethau perfformiad ysgolion, UCDau a lleoliadau. Yn ychwanegol, bydd gofynion ysgolion, lleoliadau ac UCDau i roi ystyriaeth briodol i arweiniad ychwanegol yn elfen bwysig o sicrhau llwyddiant y cwricwlwm hwn. Bydd yn bwysig fod yr holl arweiniad ychwanegol yn glir a'i fod yn cefnogi egwyddorion allweddol y Cwricwlwm i Gymru. Yn ychwanegol, efallai bydd Gweinidogion eisiau cymryd camau i sicrhau nad yw'r arweiniad ychwanegol hwn yn dod yn rhy ragnodol, fel bod gan ysgolion, UCDau a lleoliadau yr hyblygrwydd sydd ei angen o hyd i roi'r cwricwlwm hwn ar waith.

Croesewir y pwerau sy'n galluogi plant i gael eu haddysgu mewn mwy nag un lleoliad gan y gallai hyn alluogi ysgolion, UCDau a lleoliadau i gynllunio cwricwlwm mwy teilwredig ar gyfer eu disgyblion pan fydd ei angen ar gyfer anghenion unigol.

Rydym ni'n deall bod angen i Weinidogion gael pwerau i sicrhau darpariaeth ychwanegol i'r cwricwlwm hwn. Dylai unrhyw newidiadau yn y dyfodol sicrhau nad yw'r cwricwlwm yn orlawn, yn rhy ragnodol nac yn gwneud newidiadau i egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru.

**1.3 A oes angen i ddeddfwriaeth gyflawni'r hyn mae'r Bil yn ceisio'i gyflawni, yn eich barn chi?**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech chi gadw'ch ateb i ryw 500 o eiriau)*

Credwn fod angen deddfwriaeth i gyflawni'r hyn y mae'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn ceisio'i gyflawni. Bydd y ddeddfwriaeth yn alluogwr pwysig i ddiwygio'r cwricwlwm. Rhaid i'r cwricwlwm:

- alluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffordd a ddisgrifir yn y pedwar diben;

- bod yn eang a chytbwys;
- bod yn addas i ddysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a dyheadau;
- darparu ar gyfer dilyniant priodol i ddisgyblion, ac yn cynnwys ystod o ddarpariaeth i sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â'r cod dilyniant;
- cwmpasu pob un o'r chwe maes dysgu a phrofiad;
- cwmpasu cysyniadau allweddol beth sy'n cyfri mewn dysgu, a amlinellir yn y cod beth sy'n cyfri;
- cynnwys elfennau gorfodol y cwricwlwm (Saesneg, Cymraeg, addysg cydberthynas a rhywioldeb a chrefydd, gwerthoedd a moeseg); a
- chynnwys y medrau trawsgwricwlaidd gorfodol (Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol).

Rydym yn cytuno y dylai'r Bil osod dyletswyddau ar ysgolion, UCDau a lleoliadau i gyflawni hyn. Heb ddeddfwriaeth, ni fyddai egwyddorion allweddol y cwricwlwm yn statudol, a gallai hyn o bosibl gyfyngu ar y cwricwlwm sydd ar gael i ddisgyblion, a thanseilio nodau craidd y Cwricwlwm i Gymru.

## 2. Rhoi'r Bil ar waith

**2.1 A oes gennych chi unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r Bil ar waith? Os na, ewch i gwestiwn 3.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech chi gadw'ch ateb i ryw 500 o eiriau)*

Mae rhai rhwystrau posibl sydd eisoes wedi cael eu hystyried gan Weinidogion, a dylent barhau i'w hystyried wrth i'r cwricwlwm hwn gael ei ddatblygu a'i roi ar waith.

**Ansawdd yr addysgu a'r dysgu**

Ansawdd yr addysgu a'r dysgu fydd yn cynnig y cyfraniad pwysicaf ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus. Mae tystiolaeth arolygu yn dangos bod ansawdd addysgu a dysgu yn parhau i fod yn rhy amrywiol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Felly, bydd yn bwysig fod ymdrechion datblygiad proffesiynol a gwella ysgolion yn canolbwyntio ar gynorthwyo ysgolion i wella ansawdd addysgu a dysgu.

**Dysgu proffesiynol**

Fel yr awgrymir uchod, mae hyn yn ysgogwr allweddol ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus. Mae'r ddogfen memorandwm esboniadol yn cydnabod hyn ac yn rhoi disgwyliad ar gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i gefnogi dysgu proffesiynol. Bydd gwerthuso ansawdd ac effaith y dysgu proffesiynol hwn yn ofalus yn hanfodol wrth i'r system symud tuag at y dyddiad gweithredu.

**Ansawdd yr arweinyddiaeth**

Mae ansawdd arweinyddiaeth mewn ysgolion, UCDau a lleoliadau yn alluogwr

pwysig arall ar gyfer rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llwyddiannus. Lle bydd arweinwyr yn deall y cwricwlwm ac yn rhoi pwyslais cryf ar ei egwyddorion a'i ddibenion, mae'n fwy tebygol o lwyddo. Pan fydd arweinwyr yn pwyso a mesur ynghylch, ac yn cyflwyno, systemau newydd yn sensitif ac mewn modd ystyriol, mae diwygio'r cwricwlwm yn mynd rhagddo'n dda. Yn y darparwyr hyn, mae arweinwyr yn cynllunio ar gyfer diwygio yn ofalus, mae staff yn ei ddeall, ac yn ei weddu'n dda i flaenoriaethau gwella'r ysgol.

Lle nad yw arweinwyr yn rhoi ystyriaeth lawn i'r nodau sy'n ategu'r cwricwlwm newydd, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon strategol wrth ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm, nac ar gyfer dysgu ac addysgu. Mae ychydig o ysgolion yn canolbwyntio gormod ar ddatblygu dulliau dysgu amrywiol heb sefydlu eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm cyfan yn gyntaf, na sut byddant yn gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu. Yn yr achosion hyn, mae arweinwyr yn canolbwyntio gormod ar y cynnwys y byddant yn ei addysgu neu ar gysylltiadau di-bwys rhwng themâu neu feysydd pwnc, yn hytrach nag ar sut byddant yn gwella ac yn addasu eu dulliau addysgu a dysgu.

Felly, dylai dysgu proffesiynol effeithiol ar gyfer uwch arweinwyr ar ddiwygio'r cwricwlwm fod yn flaenoriaeth allweddol.

**Cymwysterau**

Mae diwygio cymwysterau yn mynd rhagddo, ac mae Cymwysterau Cymru yn ymwybodol o'r effaith y bydd cymwysterau newydd yn ei chael ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Bydd angen iddynt barhau i weithio gyda'r system i ddatblygu cymwysterau sy'n cyd-fynd ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, ac yn eu gyrru. Bydd hyn yn hanfodol i sut mae ysgolion yn dewis creu eu cwricwla, yn enwedig ar gyfer Blynyddoedd 10 ac 11.

**Trefniadau gwerthuso a gwella**

Bydd trefniadau gwerthuso a gwella yn bwysig ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae wedi bod yn amlwg gyda'r cwricwlwm presennol fod trefniadau atebolrwydd, yn enwedig mesurau perfformiad, wedi ysgogi ymddygiadau, ac wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol o bryd i'w gilydd. Wrth i'r trefniadau gwerthuso a gwella gael eu cwblhau, bydd yn bwysig fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion y cwricwlwm newydd.

Rydym hefyd yn cydnabod, o ran ein gwaith ein hunain a gwaith pobl eraill, bod trefniadau arolygu a gwerthuso lle nad oes llawer yn y fantol yn gallu helpu datblygu dulliau ar draws system a bod yn ysgogwr pwysig ar gyfer gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus.

**Effaith pandemig COVID-19**

Mae'n gynnar o hyd i werthfawrogi'n llawn beth yw effaith COVID-19 ar ysgolion. Fodd bynnag, mae'n glir y bydd arweinwyr a staff ysgol yn canolbwyntio ar les eu disgyblion a'u parodrwydd i ddysgu, yn y tymor byr, o leiaf. Mae llawer o gynllunio a gweithgarwch ysgolion dros y misoedd diwethaf wedi canolbwyntio ar logisteg rhedeg ysgolion a darparu parhad dysgu yn sgil y pandemig. Er y gellir dadlau

bod yr ailfeddwl a orfododd y cyfnod clo ar ysgolion, wedi'i gyfuno ag ymgysylltiad dyfnach â theuluoedd a gwasanaethau cymorth, wedi rhoi ysgolion mewn lle gwell i wireddu'r cwricwlwm newydd, rydym ni hefyd yn cydnabod bod ysgolion wedi cael llai o amser i baratoi ar gyfer diwygio'r cwricwlwm.

**2.2 A yw'r Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn, yn eich barn chi?**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech chi gadw'ch ateb i ryw 500 o eiriau)*

Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi llawer o'r rhwystrau posibl uchod, ac yn ystyried ffyrdd y bydd y llywodraeth yn gweithio gyda'r system i'w goresgyn. Lle bo'n bosibl, mae'r Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn. Mae'n anodd deddfu ar gyfer pob un o'r agweddau hyn, er bod y Bil yn rhoi'r pwerau i awdurdodau lleol a Gweinidogion ymyrryd pan fydd angen. Er mwyn goresgyn y rhwystrau hyn a mynd i'r afael â nhw, dylai Gweinidogion a Llywodraeth Cymru barhau i weithio'n agos â sefydliadau 'haen ganol' i fonitro a chefnogi cynnydd â gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru.

## 3. Canlyniadau anfwriadol

**3.1 A oes yna unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil, yn eich barn chi? Os na, ewch i gwestiwn 4.1**

(byddem yn ddiolchgar pe gallech chi gadw'ch ateb i ryw 500 o eiriau)

Mae nifer o ganlyniadau posibl anfwriadol y dylid eu hystyried, Gellir cynllunio ar gyfer y risgiau cysylltiedig, a lliniaru yn eu herbyn, felly nid yw'r rhain yn rhesymau i atal y ddeddfwriaeth rhag cael ei gweithredu.

**Gallu gweinidogion i ychwanegu / dileu meysydd dysgu a phrofiad a medrau trawsgwricwlaidd**

Rydym yn croesawu'r gwaith a wnaed eisoes i ddiogelu'r cwricwlwm newydd at y dyfodol o ran datblygu'r meysydd dysgu a phrofiad. Rydym yn cydnabod y bydd angen i'r cwricwlwm newydd esblygu a chael ei addasu dros gyfnod i gynnal ei berthnasedd yn sgil newid cymdeithasol yn y dyfodol. Lle bydd Gweinidogion eisiau gwneud newidiadau yn y dyfodol, bydd yn bwysig sicrhau bod egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu hystyried a'u hategu. Yn benodol, pan fydd ychwanegiadau'n cael eu gwneud at y meysydd dysgu a phrofiad neu newidiadau i fedrau trawsgwricwlaidd, bydd angen ystyried sut i warchod y cwricwlwm rhag bod yn orlawn neu'n rhy ragnodol. Dylid ystyried sut y gellir cynnal egwyddor sybsidiaredd pan fydd Gweinidogion yn arfer y swyddogaeth hon. Gallai hyn gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys dysgwyr, rhieni a gweithwyr addysg proffesiynol.

**Diffyg tanysgrifio a darparu sybsidiaredd i'r system**

Rydym ni'n gadarnhaol ynglŷn â'r newid hwn o fewn y Bil. Mae angen sybsidiaredd ar y system fel bod ysgolion, UCDau a lleoliadau yn gallu cynllunio dysgu sy'n darparu orau ar gyfer anghenion disgyblion, ac yn cefnogi eu cynnydd. Efallia bydd Gweinidogion eisiau nodi y gall cyfradd y cynnydd fod yn gyfyngedig i ddechrau, lle mae addysgu ac arweinyddiaeth yn wan. Mae'r memorandwm esboniadol yn ystyried hyn, a bydd y cynlluniau ar gyfer dysgu proffesiynol i feithrin gallu mewn arweinyddiaeth ac addysgu yn cyfrannu at liniaru hyn. Bydd trefniadau arolygu Estyn yn parhau i werthuso ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a byddwn yn gweddu ein fframwaith arolygu i gefnogi gwerthuso'r cwricwlwm newydd.

## 4. Goblygiadau ariannol

**4.1 A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar oblygiadau ariannol y Bil (fel yr amlinellir yn Rhan 2 y Memorandwm Esboniadol)? Os na, ewch i gwestiwn 5.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech chi gadw'ch ateb i ryw 500 o eiriau)*

Rydym yn croesawu'r ystyriaethau ariannol a wnaed o fewn y memorandwm esboniadol. Rydym wedi cyfrannu at yr asesiad o'r effaith rheoleiddio ac wedi gweithio gyda swyddogion i arwain y gwaith hwn, a'i gefnogi.

Mae'r angen i gynllunio am gymorth ariannol ar gyfer dysgu proffesiynol yn ystyriaeth ganolog, a rhoddwyd ystyriaeth i hyn. Yn ychwanegol, mae'r cynllunio ariannol yn ystyried risgiau fel datblygu cymwysterau, trefniadau asesu a phrosesau gwerthuso a gwella.

Mae'r adran hon o'r memorandwm esboniadol yn fanwl ac yn adlewyrchu hinsawdd ariannol bresennol y sector addysg yng Nghymru. Bydd y dadansoddiad manwl yn cefnogi'r llywodraeth i ddeall y manteision a'r risgiau, a chynllunio lliniaru.

## 5. Pwerau i greu is-ddeddfwriaeth

**5.1 A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar briodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru greu is-ddeddfwriaeth (fel yr amlinellir ym Mhennod 5, Rhan 1 y Memorandwm Esboniadol). Os na, ewch i gwestiwn 6.1.**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech chi gadw'ch ateb i ryw 500 o eiriau)*

Rydym yn cytuno â'r rhesymau y tu ôl i'r pwerau a ddarperir i Weinidogion a amlygir yn adran 5, ac yn eu deall. Mae'r pwerau hyn yn angenrheidiol i ganiatáu i'r cwricwlwm barhau yn gyfoes ac yn addas at ei ddiben.

Rydym yn cydnabod y gallai fod angen i'r cwricwlwm newydd esblygu a chael ei addasu dros gyfnod i adlewyrchu a chynnal ei berthnasedd yn sgil newid cymdeithasol yn y dyfodol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yng nghwestiwn 3, os bydd

Gweinidogion yn dymuno gwneud newidiadau yn y dyfodol, bydd yn bwysig sicrhau bod egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu hystyried. Lle gallant ychwanegu at y meysydd dysgu a phrofiad, efallai byddant eisiau ystyried sut byddent yn gwarchod y cwricwlwm newydd rhag bod yn orlawn neu'n rhy ragnodol. Gellid ystyried sut y gellir cynnal egwyddor sybsidiaredd pan fydd Gweinidogion yn arfer y swyddogaeth hon. Gallai hyn gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys dysgwyr, rhieni a gweithwyr addysg proffesiynol.

## 6. Ystyriaethau eraill

### 6.1 A oes gennych chi unrhyw bwyntiau eraill yr ydych yn dymuno eu codi ynglŷn â'r Bil hwn?

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech chi gadw'ch ateb i ryw 1000 o eiriau)*